



Bwrdd Diogelu Annibynnol
Cenedlaethol Cymru
National Independent
Safeguarding Board Wales

Cyfarfod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Cofnodion y cyfarfod

Dyddiad: 8 Gorffennaf 2026 **Amser:** 10am **Lleoliad:** Cyfarfod Teams

Yn bresennol:

- Dave Street (Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Lin Slater (Is-gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Artie Meakin (Aelod o'r Bwrdd)
- John Williams (Aelod o'r Bwrdd)
- Carys James (Aelod o'r Bwrdd)
- Emma Logan (Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cenedlaethol)

1. Croeso ac ymddiheuriadau

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r aelodau. Nodwyd ymddiheuriadau gan Desmond Mannion (Aelod o'r Bwrdd), a chafodd yr aelodau wybod y byddai cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru yn ymuno'n nes ymlaen ar gyfer y diweddariad ynghylch llywodraethiant.

2. Datgan gwrthdaro o ran buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw wrthdaro o ran buddiannau.

3. Cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod blaenorol

Bu'r Bwrdd yn adolygu'r llog gweithredu, a nododd y byddai rhai eitemau'n cael sylw'n nes ymlaen yn y cyfarfod. Cytunwyd bod cofnodion mis Mai yn barod i'w cyhoeddi, a bod angen adolygu a dosbarthu nodiadau cyfarfod busnes mis Mehefin.

4. Strategaeth gyfathrebu a'r wefan

Cadarnhaodd yr Ysgrifenyddiaeth fod trefniadau dros dro wedi'u gwneud i gynnal y gweithdy ynglŷn â'r strategaeth gyfathrebu yng Nghaerdydd ar 22 Gorffennaf, gan ddefnyddio'r fformat a gytunwyd yn flaenorol.

Roedd yr adolygiad o'r wefan wedi nodi rhai problemau technegol o bwys. Bydd rhagolwg diwygiedig yn cael ei ddiweddarau a fydd yn cynnwys gwybodaeth gliriach am y Bwrdd Cenedlaethol, cofnodion, adroddiadau a dolenni cyswllt â'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol, a bydd cynnwys Cymraeg yn cael ei ychwanegu cyn bod y cyfan yn cael ei gyhoeddi.

Mae'n bosibl y bydd angen plattfform hirdymor symlach ar gyfer y wefan er mwyn ei gwneud yn haws cynnal a chadw'r wefan a lleihau dibyniaeth ar ddiweddariadau trydydd parti. Gwnaed cais am ddyfynbris i sefydlu gwefan a'i chynnal a'i chadw yn barhaus.

5. Cyflwyniad gan Ymddiriedolaeth Ann Craft, NSPCC Sport a Chwaraeon Cymru

Amlinellodd y cynrychiolwyr waith a wneir i gryfhau diogelu ar draws chwaraeon yng Nghymru, sy'n cynnwys diwylliant diogelu, adrodd, atal, diogelu oedolion, ymwybyddiaeth y cyhoedd, a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau anffurfiol a chlybiau nad ydynt yn gysylltiedig â sefydliad mwy o faint.

Nododd yr aelodau fod chwaraeon yn gallu creu risgiau diogelu ond hefyd yn gallu darparu cydberthnasau llawn ymddiriedaeth, mannau diogel a chyfleoedd i ddatgelu camdriniaeth. Pwysleisiwyd yr angen am gyfrifoldebau clir, cysylltiadau cryfach â'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol ac ymwybyddiaeth well ymhlith y cyhoedd.

At hynny, cefnogodd y Bwrdd waith i wella cysondeb o ran data am ddiogelu, trothwyau a dulliau o gofnodi data, drwy fentrau ehangach yn ymwneud â chwaraeon diogel.

6. Diweddariad am yr adroddiad thematig ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant

Roedd y Bwrdd yn cytuno y dylai'r adroddiad thematig ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant osgoi gormod o argymhellion ffurfiol. Yn hytrach, dylai gyflwyno pwyntiau dysgu clir ac ymarferol neu gyfleoedd i ddatblygu ymarfer ar gyfer Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

Nododd yr aelodau y dylai unrhyw dystiolaeth o weithredu neu fyfyrion fod yn gymesur, ac osgoi creu baich ychwanegol.

7. Gwaith thematig ac adroddiadau blynyddol yn y dyfodol

Bu'r Bwrdd yn ystyried gwaith thematig yn y dyfodol, gan nodi nad oedd y wybodaeth sydd ar gael am Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn ddigonol eto i gadarnhau a fyddai adolygiad thematig o Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn briodol eleni.

Roedd yr aelodau o blaid gwaith â ffocws ar adroddiadau blynyddol, a chynlluniau i'w gwneud yn fyrrach ac yn fwy ystyrlon a sicrhau eu bod yn gallu dangos effaith, blaenoriaethau a gofynion statudol yn well.

Bydd hynny'n cael ei ystyried fel darn ymarferol o waith ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Mae materion ehangach ym maes diogelu oedolion, sy'n cynnwys trothwyau a phenderfyniadau drws ffyrnt, yn dal yn bwysig ond mae arnynt angen cwestiwn ymchwil cliriach a chwmpas ehangach.

8. Diweddariad ynghylch y gyllideb

Nododd y Bwrdd y sefyllfa gyffredinol o ran y gyllideb, a oedd yn cynnwys gwariant hyd yma a'r rhagolwg ar gyfer gweddill y flwyddyn.

Mae'r rhagolwg yn cynnwys hawliadau'r aelodau, partneriaeth Prifysgol Metropolitan Manceinion, trwyddedau, gwaith yn ymwneud ag Adolygiadau Ymarfer Oedolion/ Adolygiadau Ymarfer Plant, costau'r Wythnos Diogelu, cyfieithu, diwrnodau datblygu, cymorth i gyhoeddi, a chostau dros dro ailddatblygu'r wefan. Mae'n bosibl y bydd rhai amcangyfrifon yn llai pan fydd costau wedi'u cadarnhau.

9. Y broses ar gyfer hawliadau gan aelodau'r Bwrdd

Bu'r Bwrdd yn trafod y broses ddiwygiedig ar gyfer hawliadau, a fydd yn gwella'r modd y caiff amser ei gofnodi ac yn darparu cofnod y gellir ei archwilio o weithgarwch y Bwrdd, gan gynnwys cyfarfodydd, gwaith paratoi, teithio a gwaith cysylltiedig.

Bydd y broses ddiwygiedig yn cychwyn ym mis Awst, gyda ffurflen, canllawiau a sesiwn arddangos fer i egluro sut y mae'n cysylltu â chofnodion calendr a beth y dylid ei gofnodi.

10. Cynhadledd yr Wythnos Diogelu

Mae'r cynlluniau ar gyfer Cynhadledd yr Wythnos Diogelu yn mynd rhagddynt yn dda. Disgwylir i'r digwyddiad ynghylch diogelu oedolion ymdrin â'r dirwedd o ran diogelu, profiad go iawn, datblygiadau cyfreithiol, archwiliadau meddygol, arolygu a materion yn ymwneud â phobl hŷn, a disgwylir cyfraniadau gan y Gweinidog, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd.

Nododd yr aelodau yr angen am drefniadau wrth gefn pe bai siaradwyr yn methu â mynychu ar y funud olaf.

11. Fformat ac amserlen ar gyfer yr adroddiad blynyddol

Rhaid i'r adroddiad blynyddol gael ei gyflwyno i'r Gweinidog erbyn 31 Hydref a'i gyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr, gan ganiatáu amser i'w gyfieithu a'i gyhoeddi. Roedd yr aelodau'n cytuno y dylai gael ei ddatblygu drwy gydol y flwyddyn.

Bydd y fformat yn dilyn gofynion statudol, yn defnyddio penawdau a arweinir gan gwestiynau, ac yn ymgorffori'r fframwaith pum cwestiwn. Bydd templed OneDrive a rennir yn cofnodi gwaith ymgysylltu, gwaith thematig, materion sy'n dod i'r amlwg, effaith a deilliannau, gan ganolbwyntio ar arwyddocâd a dysgu yn hytrach nag ar weithgarwch cyfarfodydd.

12. Y Bwrdd Gweithdrefnau Diogelu a chanllawiau ymarfer cenedlaethol

Bu'r Bwrdd yn trafod sut i helpu ymarferwyr i adnabod gweithdrefnau cenedlaethol, canllawiau ymarfer ac adnoddau diogelu cyfredol, gan osgoi dyblygu ar draws Cymru.

Gallai gwefan y Bwrdd Cenedlaethol, wedi iddi gael ei diweddarau, fod yn bwynt cyfeirio canolog, a fydd yn gwella amlygrwydd ac yn lleihau'r risg bod sawl fersiwn ar gael o ganllawiau tebyg.

13. Ymgysylltu â rhanddeiliaid a blaenoriaethau'r cynllun gwaith

Cytunodd y Bwrdd i gysylltu'r matrices rhanddeiliaid â'r cynllun gwaith fel bod gwaith ymgysylltu'n bwrpasol, ei fod yn cael ei arwain gan flaenoriaethau a bod ganddo berchnogaeth glir.

Mae'r blaenoriaethau newydd ar gyfer 2026–2027 yn cynnwys y set ddata genedlaethol am ddiogelu; adrodd ynghylch effeithiolrwydd diogelu; adroddiadau blynyddol a chynlluniau; canllawiau ymarfer cenedlaethol; yr adolygiad o lywodraethiant; y gynhadledd genedlaethol; a datblygiadau ehangach ym maes diogelu.

Nododd y Bwrdd risgiau newydd, sy'n cynnwys adroddiadau ac ymchwiliadau cenedlaethol, diwygio dedfrydau, pwysau ar gapasiti'r gweithlu a Byrddau Diogelu Rhanbarthol, a'r pwysau ehangach yn y sector cyhoeddus sy'n effeithio ar gyflawni gwaith diogelu.

15. Diweddariadau ynghylch y Byrddau Diogelu Rhanbarthol

Rhannodd yr aelodau ddiweddariadau ynghylch y Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Soniodd Gorllewin Morgannwg am ymgysylltu cadarnhaol ac am waith defnyddiol ar Ffurflen Atgyfeirio Integredig Cymru Gyfan a'r Traciwr Diogelu Amlasiantaeth, gan nodi pwysau ar gapasiti a dibyniaeth ar staff profiadol.

Roedd y diweddariadau eraill yn ymdrin â Ffurflen Atgyfeirio Integredig Cymru Gyfan, ymgysylltu â byrddau ieched, plant mewn dalfeydd, oedi i blant a gaiff eu rhyddhau dan ymchwiliad, pwysau ar ymwelwyr ieched, diogelu wrth droi'n oedolyn,

y Traciwr Diogelu Amlasiantaeth, ymgysylltu ag arolygiaethau, dysgu o Adolygiadau Ymarfer Plant, cam-drin domestig, a sicrhau bod profiadau plant yn parhau'n amlwg.

16. Diweddariad gan swyddog o Lywodraeth Cymru

Diweddariad ynghylch yr adolygiad o lywodraethiant

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i'r Bwrdd ynghylch yr adolygiad o lywodraethiant. Mae'r adroddiad yn dal i ddisgwyl am gymeradwyaeth Gweinidogion, ac mae'n bosibl wedyn y bydd yn cael ei rannu â grŵp cyfyngedig o randdeiliaid dan fesurau cyfrinachedd llym, wrth ddisgwyl iddo gael ei gyhoeddi a disgwyl am y camau nesaf.

Bu'r Bwrdd yn trafod yr angen i ystyried yn bwrpasol yr argymhellion, y goblygiadau i'r Bwrdd Cenedlaethol a'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol, a threfniadau pontio. Cynigiwyd y dylid cynnal sesiwn gychwynnol fer a sesiwn fwy llawn yn ystod yr haf. Disgwylir y bydd yr adroddiad yn cydnabod ymrwymiad ar draws y system ddiogelu ac y bydd hefyd yn nodi elfennau tameidiog, problemau strwythurol, pwysau ar gapasiti, a'r angen am ddadansoddiadau thematig cryfach. Mae'n cynnwys wyth argymhelliad, y mae rhai ohonynt yn gofyn am newid mwy hirdymor neu ddeddfwriaethol.

Cyfarfod â'r Gweinidog a chysylltiadau â pholisi Llywodraeth Cymru

Cadarnhawyd mai cyfarfod rhagarweiniol fyddai'r cyfarfod sydd ar ddod â'r Gweinidog, lle disgwylir y bydd y Gweinidog yn amlinellu ei blaenoriaethau ac yn gwahodd y Bwrdd i esbonio rôl a rhaglen waith y Bwrdd Cenedlaethol.

At hynny, nododd y Bwrdd yr angen i gryfhau cysylltiadau ag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru fel bod gwaith sy'n ymwneud â diogelu'n cynnwys y Bwrdd Cenedlaethol ar yr adeg gywir.

Ymchwiliad y DU i gangiau grŵmio, ac Operation Beaufort

Nododd y Bwrdd y cylch gorchwyl sydd wedi'i ddiweddarau ar gyfer ymchwiliad y DU i gangiau grŵmio, a meini prawf Operation Beaufort ar gyfer adnabod ardaloedd ffocws lleol. Mae tair ardal wedi'u nodi hyd yma, ond nid oes yr un ohonynt yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r gwaith, ac mae rhywfaint o waith rhanbarthol ar y gweill ynghylch data.

19. Pwyntiau dysgu'r adroddiad thematig ynghylch Adolygiadau Ymarfer Plant

Roedd y Bwrdd o blaid cyflwyno pwyntiau dysgu allweddol a chyfleoedd i ddatblygu yn lle argymhellion ffurfiol, er mwyn lleihau'r risg o greu llwyth ychwanegol o gamau gweithredu ffurfiol ar gyfer Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

At hynny, roedd yr aelodau'n cytuno y dylid egluro geiriad ynghylch defnydd rhanbarthol o argymhellion Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Ymarfer Plant, lleisiau plant o safbwynt dysgu'n ymwneud ag ymarfer, a data cenedlaethol Adolygiadau Ymarfer Plant drwy Storfa Ddiogelu Cymru a chyd-destun yr Adolygiad Diogelu Unedig Sengl.

20. Unrhyw fater arall a dod â'r cyfarfod i ben

Ni chafodd unrhyw fater arall o bwys ei godi. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.